Derbyn Myfyrwyr Anabl a Myfyrwyr â Gwahaniaethau Dysgu Penodol

## 1 Rhagarweiniad

1.1 Yn unol â'i Datganiad Polisi ar Ehangu Mynediad a Derbyn Myfyrwyr, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ehangu cyfleoedd i addysg uwch ac yn croesawu ac yn derbyn myfyrwyr ag ystod helaeth ac amrywiol o gymwysterau a chefndiroedd.

## 2 Egwyddorion Derbyn

2.1 Ystyrir pob cais yn unigol ac ar sail teilyngdod. Bydd y Brifysgol yn asesu cais gan unrhyw ymgeisydd sy'n datgan anabledd gan ddefnyddio'r un meini prawf derbyn ag sy'n berthnasol i bob ymgeisydd. Bydd y drefn asesu hon fel arfer yn ystyried addasrwydd academaidd ar wahân i'r drafodaeth ar anghenion eraill yr ymgeisydd a fydd yn digwydd yn gyfochrog ond ar wahân.

2.2 Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i'r holl ddulliau astudio ac i'r holl fyfyrwyr, beth bynnag fo'u cefndir.

2.3 Ni ddylid ei chymryd yn ganiataol y bydd cymorth ar gyfer un cwrs yn addas ar gyfer un arall. Os bydd unigolyn yn dymuno trosglwyddo i gwrs arall yn y Brifysgol neu symud i lefel uwch, efallai y bydd rhaid gwneud asesiad arall, yng nghyd-destun y cais newydd.

## 3 Cefndir

3.1 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn pobl sy'n anabl:

- O ran y trefniadau a wneir ar gyfer penderfynu pwy sy'n cael eu derbyn yn fyfyrwyr;
- O ran y telerau y bydd yn eu cynnig er mwyn derbyn unigolion yn fyfyrwyr;

- Trwy beidio â derbyn unigolion yn fyfyrwyr.

*3.2* Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd sy’n rhoi gwerth ar bob un ohonom ni fel unigolion, lle gall y staff a’r myfyrwyr weithio, dysgu, ffynnu a datblygu eu sgiliau a’u gwybodaeth gydag urddas a pharch. Mae hyrwyddo cydraddoldeb yn rhan annatod o’r ffordd y mae’r Brifysgol yn cynnal ac yn darparu ei gweithgareddau.

## 4 Beth a olygir wrth unigolyn anabl?

4.1 Unigolyn anabl yw rhywun sydd ag amhariad sy’n effeithio yn anffafriol ac yn sylweddol dros y tymor hir ar y gallu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol normal, ac mae’n cynnwys, er enghraifft:

- Nam ar y synhwyrau (golwg/clyw)
- Problem iechyd meddwl
- Nam ar y gallu i symud
- Nam ar ddeheurwydd
- Syndrom Asperger neu anhwylder arall ar y sbectrwm awtistig
- Cyflwr meddygol cronig (e.e. diabetes, epilepsi, asthma)
- Poen gronig/Blinder cronig
- Anawsterau dysgu penodol (e.e. dyslecsia, dyspracsia)
- Unrhyw gyflwr arall sy’n cael effaith andwyol dros y tymor hir ar astudio

## 5 Darparu Newidiadau Rhesymol

5.1 Rhaid i Brifysgolion gymryd camau rhesymol i addasu arferion, meini prawf neu ddarpariaethau presennol os bydd myfyrwyr anabl dan anfantais sylweddol o’u cymharu â myfyrwyr nad ydynt yn anabl. Gelwir hyn yn “ddyletswydd newidiadau rhesymol” ac mae hefyd yn gallu golygu cael gwared ar rwystrau materol sy’n rhoi unigolyn anabl dan anfantais sylweddol, neu addasu rhwystrau o’r fath. Gall darparu offer neu wasanaethau cynorthwyol (er

enghraifft, gosod dolen glyw ar gyfer myfyrwyr byddar) hefyd fod yn addasiad rhesymol, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau

5.2 Wrth ystyried rhesymoldeb, gall nifer o ystyriaethau fod yn berthnasol gan gynnwys yr isod:

- Pa mor effeithiol fyddai'r cam o ran lliniaru'r anfantais;
- Y math o addysg neu'r budd, y cyfleuster neu'r gwasanaeth arall a ddarperir;
- Adnoddau'r Brifysgol;
- Effaith yr anabledd neu'r gwahaniaeth dysgu penodol ar yr unigolyn;
- Ymarferoldeb y camau;
- Costau ariannol a chostau eraill wrth addasu;
- Y grantiau neu'r benthyciadau sydd ar gael, e.e. Lwfans i Fyfyrwyr Anabl;
- Iechyd a Diogelwch;
- Buddiannau perthnasol pobl eraill, gan gynnwys myfyrwyr eraill – lle byddai addasiadau yn arwain at roi pobl eraill dan anfantais sylweddol;
- I ba raddau y bydd offer cynorthwyol a gwasanaethau yn cael eu darparu i bobl anabl fel arall.

5.3 Os bydd angen darparu offer cynorthwyol a gwasanaethau i'r unigolyn a fyddai'n cael eu hariannu fel arfer gan y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, ac os na all myfyrwyr droi at gymorth o'r fath, gall y Brifysgol gynnig cymorth o'i hadnoddau cyfyngedig ei hun. Bydd unrhyw gymorth a ddarperir gan y Brifysgol yn cael ei ddarparu yn rhinwedd ei swyddogaeth fel darparwr addysg. Ni fydd y Brifysgol yn darparu cymorth a fyddai'n cael ei ddarparu fel arall gan sefydliadau statudol eraill fel y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Awdurdod Iechyd. Mae'n bwysig felly trafod gofynion â Gwasanaethau Hygyrchedd y Brifysgol cyn gynted â phosibl yn ystod y broses dderbyn.

5.4 Gall y Brifysgol ofyn yn rhesymol am fwy o wybodaeth er mwyn asesu pa newidiadau rhesymol, os o gwbl, y gellir eu gwneud. Gall fod ar ffurf tystiolaeth feddygol, Asesiad gan Seicolegydd Addysgiadol neu Asesiad Anghenion Astudio. Fel arfer, bydd Asesiadau Anghenion Astudio myfyrwyr y DU yn cael

eu hariannu gan y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, os yw’r corff dyfarnu yn darparu cronfa o’r fath

## 6 Safonau Cymhwysedd

6.1 Nid oes dyletswydd i addasu’r safonau cymhwysedd, hynny yw'r safonau academaidd, meddygol neu eraill a ddefnyddir ar gyfer penderfynu a oes gan unigolyn lefel benodol o gymhwysedd neu allu ai peidio. Gwneir hyn er mwyn diogelu safonau academaidd. Fodd bynnag, mae’r safonau cymhwysedd yn wahanol i’r dulliau a ddefnyddir gan y Brifysgol i asesu a yw’r ymgeisydd wedi bodloni’r safonau mynediad gofynnol ar gyfer y cwrs. Gwneir addasiadau ar gyfer cyfweliadau, profion a dulliau asesu eraill, a gellir darparu dulliau asesu amgen.

6.2 Mae’r Brifysgol yn adolygu ei safonau cymhwysedd o dro i dro er mwyn sicrhau eu bod yn ffordd gymesur o gyrraedd y safonau academaidd neu broffesiynol sy’n ofynnol.

6.3 Mae’n bosibl y bydd achosion lle na ellir derbyn ymgeisydd ar gwrs arbennig, oherwydd safon cymhwysedd y cwrs hwnnw, ac mewn achosion priodol gellir cynnig cwrs arall.

## 7 Swyddogaeth y Swyddfa Dderbyn

7.1 Y Swyddfa Dderbyn sy’n gyfrifol am gyfleu’r penderfyniad i’r ymgeisydd ac am hysbysu’r ymgeisydd ynghylch y gofynion mynediad y mae’n rhaid eu bodloni. Gwneir penderfyniadau mewn ffordd amserol, wrth i’r ceisiadau ddod i law ac wrth iddynt gael eu hystyried.

7.2 Mae’r Swyddfa Derbyn Israddedigion wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau o fewn pump i ddeg diwrnod ar ôl cael y cais gan UCAS, a bwrw bod yr wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gwneud penderfyniad ar gael.

7.3 Mae’r Swyddfa Derbyn Graddedigion wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau am y rhan fwyaf o’r cynlluniau uwchraddedig a ddysgir trwy gwrs rhwng pythefnos a phedair wythnos ar ôl cael y cais gorffenedig, a bwrw bod y dogfennau sydd eu hangen er mwyn dod i benderfyniad ar gael. Bydd penderfyniadau academaidd syml (e.e. os yw’r gofynion mynediad yn amlwg wedi eu bodloni) yn cael eu gwneud yn gynt na phenderfyniadau sy’n fwy ffiniol (e.e. ymgeiswyr heb radd ond sydd â phrofiad perthnasol neu raddedigion o ddisgyblaethau digyswllt) neu’r rhai hynny lle y mae’n ofynnol cynnal cyfweliad a/neu adolygiad ar weithiau creadigol fel rhan o’r drefn ddethol safonol ar gyfer cyrsiau penodol.

7.4 Fel arfer, bydd penderfyniadau ar gyfer rhaglenni ymchwil uwchraddedig yn cymryd tua 6 wythnos ar ôl cael y cais gorffenedig, a bwrw bod y ddau eirda, y cynnig ymchwil a’r dogfennau eraill sydd eu hangen er mwyn dod i benderfyniad ar gael. Mae penderfyniadau o’r fath yn fwy cymhleth na phenderfyniadau ar gyfer ceisiadau am gynlluniau uwchraddedig a ddysgir trwy gwrs gan fod pob rhaglen ymchwil yn brosiect ymchwil personol. Bydd pob penderfyniad o’r fath yn amodol ar gyfweliad. Fel arfer, bydd penderfyniadau ar gyfer ceisiadau sy’n cael eu hystyried am gyllid yn cymryd mwy o amser oherwydd yr angen i asesu’r garfan gyfan o ymgeiswyr.

## 8 Swyddogaeth yr Ymgynghorwyr Hygyrchedd

8.1 Mae’r Ymgynghorwyr Hygyrchedd sydd yn rhan o’r Gwasanaeth Hygyrchedd yn gyfrifol am gydlynu’r cymorth i fyfyrwyr anabl a’r rhai sydd â gwahaniaethau dysgu penodol neu broblemau iechyd cronig. Mae’r Ymgynghorwyr yn cynnig cyngor a chymorth arbenigol i’r holl ddarpar fyfyrwyr a’r myfyrwyr cyfredol a’u teuluoedd a hefyd i staff y Brifysgol wrth iddynt ymwneud â myfyrwyr. Ar ben hynny, mae’r Ymgynghorwyr yn cydlynu’r modd y datgelir anghenion ymgeiswyr a myfyrwyr yn unol â pholisi’r Brifysgol a dymuniadau’r unigolyn.

## 9 Datgelu

9.1 Anogir ymgeiswyr i ddatgelu gwahaniaeth dysgu penodol, anabledd neu gyflwr meddygol yn gynnar er mwyn galluogi'r Brifysgol i ystyried, ymlaen llaw, y trefniadau hygyrchedd cyffredinol, unrhyw addasiadau penodol ar gyfer yr unigolyn ac unrhyw gymorth neu drefniadau penodol ychwanegol y gall fod angen eu gwneud.

9.2 Ni fydd yr wybodaeth a ddarperir yn cael ei defnyddio'n anghyfreithlon i wrthod lle ar y cwrs perthnasol ac fe'i hystyrir yn ddata sensitif, personol yn unol â'r diffiniad yn Neddf Gwarchod Data 1998.

9.3 Mae'r Brifysgol yn deall mai dewis a phenderfyniad yr ymgeisydd fydd hyd a lled yr wybodaeth a ddatgelir. Mae hefyd yn deall yr angen am gyfrinachedd a gofynnir am ganiatâd yr ymgeiswyr o ran faint o wybodaeth a ddatgelir o fewn y Brifysgol. Er gwaethaf ei dyletswydd i ragweld anghenion, mae'n bosibl y bydd y Brifysgol yn gyfyngedig o ran ei gallu i ddarparu newidiadau rhesymol os bydd myfyrwyr yn dewis peidio â datgelu neu'n dewis datgelu gwybodaeth gyfyngedig yn unig.

## 10 Cyfleoedd i Ddatgelu

10.1 Ceir cyfleoedd i ddatgelu ac i drafod trefniadau cymorth priodol yn gynnar yn y broses dderbyn.

10.1.1 Cyn gwneud cais

Mae'r Brifysgol yn trefnu sawl Diwrnod Agored ar gyfer darpar ymgeiswyr, eu rhieni a'u ffrindiau. Bydd Ymgynghorwyr Hygyrchedd ar gael yn ystod y Diwrnodau Agored i gynnig cyngor cyffredinol a sesiynau cynghori personol.

10.1.2 Gwneud cais

Bydd ymgeiswyr anabl a'r rhai hynny â gwahaniaethau dysgu penodol yn cael eu hadnabod o'r ffurflen gais am y cwrs drwy'r:

- Cod anabledd
- Datganiad personol

- Gwybodaeth a ddarperir gan y canolwr
- Adran briodol ar y ffurflen gais

10.1.3 Ar ôl y Cynnig

Bydd yr Ymgynghorwyr Hygyrchedd yn cysylltu â'r ymgeiswyr drwy e-bost i wahodd datgelu pellach ac i drafod unrhyw anghenion posibl o du'r ymgeiswyr. Anogir ymgeiswyr llwyddiannus i ddod i Ddiwrnod Ymweld â'r Brifysgol. Anogir ymgeiswyr anabl i fanteisio ar y cyfle hwn i drefnu apwyntiad i gwrdd â'r Ymgynghorwyr Hygyrchedd i drafod unrhyw anghenion unigol.

10.2 Ar ben hynny, mae'r Ymgynghorwyr Hygyrchedd ar gael drwy'r broses ymgeisio i drafod anghenion unigol. Gellir gwneud hyn yn bersonol drwy drefniant neu dros y ffôn neu e-bost.

## 11 Anghenion Cymhleth

11.1 Weithiau, gall ymgeiswyr ddatgelu'r angen am ofynion cymorth sylweddol. Mewn achosion o'r fath, mae profiad yn awgrymu mai Cynhadledd Achos ar y safle gyda'r ymgeisydd yw'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o symud ymlaen.

11.2 Wrth drafod â'r ymgeisydd, gellir gwahodd cynrychiolwyr o'r adran academaidd berthnasol, y Gwasanaeth Hygyrchedd, y Swyddfa Llety ac Iechyd a Diogelwch i'r gynhadledd, fel sy'n briodol i amgylchiadau'r unigolyn. Anogir yr ymgeisydd i ddod â'u gweithwyr cymorth presennol neu eu teulu/ffrindiau i ymuno â'r drafodaeth.

11.3 Bydd y Gynhadledd Achos yn nodi'r newidiadau rhesymol hynny y bydd rhaid i'r Brifysgol eu gwneud, yn ôl y gyfraith. Ar ddiwedd y Gynhadledd Achos, bydd datganiad o ddealltwriaeth yn cael ei baratoi er mwyn cofnodi'r disgwyliadau o'r ddwy ochr a chyfrifoldebau'r naill a'r llall.

## 12 Lle na ellir Bodloni'r Anghenion

12.1 Er bod y Brifysgol wedi ymrwymo i dderbyn myfyrwyr anabl neu'r rhai hynny â gwahaniaethau dysgu penodol, gall fod achosion unigol, oherwydd anghenion

penodol ymgeiswyr, lle nad oes addasiadau y gallai'r Brifysgol eu gwneud yn rhesymol i atal yr ymgeisydd dan sylw rhag dioddef anfanteision sylweddol mewn cysylltiad â'r cwrs a/neu o ran cael buddiannau, cyfleusterau neu wasanaethau.

12.2 Er enghraifft, mae'n aml yn anodd dod o hyd i gyfieithydd iaith arwyddion trwyddedig neu gymerwyr nodiadau cyfrwng Cymraeg o fewn pellter rhesymol i Aberystwyth. Mae'n bosib felly na fyddai defnyddio gwasanaethau ategol o'r fath yn rhesymol o safbwynt ariannol, ac felly ni fyddent yn addasiadau rhesymol i'w gwneud. Ar ben hyn, mae'n bosib na fyddai addasiadau y gellid eu hystyried yn rhesymol yng nghyd-destun cwrs gradd yn rhesymol o safbwynt derbyn myfyrwyr ar gyrsiau byr a ddarperir gan raglen dysgu gydol oes y Brifysgol.

12.3 Lle na ellir bodloni'r anghenion ac ar ôl archwilio'r holl ddewisiadau eraill, gall fod mai'r unig ddewis rhesymol fydd i'r Brifysgol dynnu ei chynnig yn ôl. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd yn gwneud argymhelliad i'r Dirprwy Is-Ganghellor perthnasol. Bydd y Dirprwy Is-Ganghellor perthnasol yn ystyried yr argymhelliad ac os bydd yn cytuno, bydd yn hysbysu'r ymgeisydd o'r penderfyniad i dynnu'r cynnig yn ôl.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Fersiwn: | 1.3 | Dyddiad cyhoeddi: | |
| Rheswm am y diweddariad: | Adolygu a diweddaru gwybodaeth i adlewyrchu strwythur adrannau newydd. | | |
| Cymeradwywyd:: | Pwyllgor Profiad y Myfyrwyr 23/02/2020 | Yn weithredol o: | Ionawr 2020 |
| Rhanddeiliaid eraill: | Cofrestrfa Academaidd; Cydymffurfiaeth Gwybodaeth | | |
| Cyswllt: | John Harrington, Dirprwy Bennaeth, Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd<br>oih@aber.ac.uk | | |